Senedd Cymru
Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

Ethol Senedd fwy amrywiol

Crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan bleidiau gwleidyddol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd i ymchwilio i argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ynglŷn â maint y Senedd a sut y mae'r Aelodau'n cael eu hethol.

Ym mis Ionawr 2020, ysgrifennodd y Pwyllgor at y pleidiau gwleidyddol i'w gwahodd i roi sylwadau ar y goblygiadau ymarferol sy'n gysylltiedig ag argymhellion y Panel Arbenigol mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Adrodd ar amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd.
- Caniatáu i unigolion sefyll ar gyfer etholiad ar sail rhannu swydd.
- Cyflwyno cwotâu deddfwriaethol ynghylch rhywedd ymgeiswyr.

Dywedodd y Pwyllgor wrth y pleidiau nad oedd yn bwriadu cyhoeddi'r ymatebion yn llawn, na phriodoli unrhyw faterion a oedd yn cael eu codi i unrhyw blaid wleidyddol benodol. Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr ymatebion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Cwestiwn 1: Pe bai gofyniad yn cael ei gyflwyno i'ch plaid wleidyddol adrodd ar amrywiaeth ymgeiswyr etholiadol i'r Senedd, beth fyddai'r goblygiadau ymarferol ac ariannol, neu unrhyw oblygiadau eraill, o ran eich dull o ddewis ymgeiswyr neu'ch prosesau mewnol?

1. Mynegodd y pleidiau safbwyntiau cymysg ynghylch y cam o gyflwyno gofyniad bod data ar amrywiaeth ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi, a'r goblygiadau ymarferol a fyddai'n deillio o hynny. Dyma rai o'r materion a godwyd gan y pleidiau gwleidyddol:

- Gallai fod risg y byddai pobl yn cael eu trin fel aelodau o gategorïau yn hytrach na chael eu trin fel unigolion.
- Mae'n bosibl y byddai hyn yn cyfyngu ar allu pleidiau i ddethol ymgeiswyr yn ôl eu teilyngdod yn hytrach nag ar sail eu nodweddion amrywiaeth.
- Mae'n bosibl y gallai'r broses o ganolbwyntio ar amrywiaeth ymgeiswyr yn unig, a hynny heb roi ystyriaeth i ba seddi allai fod yn fwy neu'n llai ennilladwy i bleidiau gwleidyddol, arwain at ganfyddiad bod gan y pleidiau gronfeydd amrywiol o ymgeiswyr, heb fod lefel amrywiaeth y Senedd ei hun yn newid.

2. Roedd gan y pleidiau safbwyntiau cymysg hefyd ynghylch i ba raddau y byddai unrhyw ofyniad i gyhoeddi data yn arwain at oblygiadau ymarferol neu ariannol. Awgrymodd rhai o'r pleidiau na fyddai unrhyw oblygiadau o gwbl, neu y byddai unrhyw oblygiadau yn fach iawn neu na fyddent yn rhy feichus; roedd pleidiau eraill o'r farn y byddai'r goblygiadau yn sylweddol. Dyma rai o'r materion a godwyd gan y pleidiau gwleidyddol:

- Yr angen i addasu'r prosesau gweinyddol sydd ar waith ar hyn o bryd neu gyflwyno prosesau newydd, ynghyd â gofynion cysylltiedig o ran staffio ac adnoddau.
- Materion diogelu data, gan gynnwys prosesu data, cyfrinachedd a sicrhau bod y cydsyniadau priodol ar waith.
- P'un a fyddai ymgeiswyr yn teimlo'n gyffyrddus â'r broses o ddatgelu data personol sensitif, a pha un a fyddai modd sicrhau bod data yn ddigon anhysbys o fewn grwpiau cymharol fach o bobl.
- Yr angen i sicrhau eglurder a chysondeb o fewn ac ar draws y pleidiau gwleidyddol ynghylch y data a fyddai'n cael eu casglu a'r diffiniadau a

fyddai'n berthnasol. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol datblygu unrhyw gynigion mewn ymgynghoriad â'r pleidiau gwleidyddol, ac y dylid darparu ffurflenni a chanllawiau cyffredin.

Cwestiwn 2: Pe caniateir i ymgeiswyr sefyll i'w hethol i'r Senedd ar sail rhannu swydd, beth fyddai'r effaith ar eich plaid wleidyddol o ran ystyriaethau ymarferol, neu oblygiadau ariannol neu oblygiadau eraill?

3. Roedd gan y pleidiau safbwyntiau cymysg ynghylch a ddylid caniatáu i bobl sefyll i'w hethol ar sail rhannu swydd. Roedd rhai yn gefnogol o'r cam hwn, ond mynegodd eraill bryderon ynghylch yr egwyddor neu'r goblygiadau ymarferol a oedd ynghlwm wrth y syniad. Dyma rai o'r materion a godwyd gan y pleidiau gwleidyddol:

- Mesurau amgen yn cael eu ffafrio, fel caniatáu i Aelodau sydd ar absenoldeb rhiant bleidleisio drwy ddirprwy.
- Pryder y gallai pleidiau gwleidyddol, eu haelodau, rhanddeiliaid a chymunedau lleol roi pwysau sylweddol ar bobl a oedd yn cyflawni eu rôl ar sail rhannu swydd, gan arwain at sefyllfa lle byddai'r sawl a oedd yn rhannu'r swydd yn ysgwyddo lefel afresymol o gyfrifoldeb, neu sefyllfa a fyddai'n cael effaith niweidiol ar amrywiaeth y Senedd yn hytrach nag effaith gadarnhaol.
- Pryder y gallai trefniadau rhannu swydd rhwng menywod a dynion gael eu defnyddio i guddio diffyg cynnydd o ran sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Senedd.

4. Awgrymodd rhai pleidiau y byddai'r goblygiadau iddyn nhw, fel pleidiau gwleidyddol, yn fach iawn. Fodd bynnag, roedd pleidiau eraill yn teimlo y byddai'r goblygiadau yn sylweddol, neu nad oedd eglurder digonol ynghylch sut y byddai trefniadau rhannu swydd yn gweithio'n ymarferol. Dyma rai o'r materion a godwyd gan y pleidiau gwleidyddol:

- Y potensial i ddysgu gwersi yn sgil enghreifftiau ymarferol mewn mannau eraill, fel y broses o rannu rolau gweithredol o fewn llywodraeth leol.
- P'un a allai diffyg eglurder o ran yr hyn y mae Aelodau yn ei wneud arwain at heriau o ran nodi sut y byddai rôl Aelod o'r Senedd yn cael ei rhannu rhwng partneriaid rhannu swydd.

- Byddai angen rhoi trefniadau ar waith i roi eglurder ynghylch yr hyn a fyddai'n digwydd pe bai un o'r partneriaid rhannu swydd yn marw, yn ymddiswyddo neu'n cael ei ddiarddel, pe bai'r berthynas rhwng y partneriaid rhannu swydd yn chwalu, neu pe bai un o'r partneriaid rhannu swydd—neu'r ddau ohonynt—yn dymuno ymuno â grŵp gwleidyddol, neu'n dymuno gadael neu newid ei grŵp gwleidyddol (neu'n cael ei wahardd neu ei ddiarddel o grŵp gwleidyddol). Yn ôl un blaid, pe bai mwy o swyddi gwag achlysurol yn codi o ganlyniad i drefniadau rhannu swydd, gallai hynny arwain at oblygiadau o ran sefydlogrwydd y ddeddfwrfa a gallai hefyd arwain at gostau ychwanegol i'r Senedd ac i bleidiau gwleidyddol.

- Byddai angen rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli'r drefn bleidleisio a'r drefn o gymryd rhan ym musnes y Senedd; ar gyfer penderfynu a all Aelodau sy'n rhannu swydd ddal swydd weithredol (naill ai gyda'i gilydd neu ar wahân); ar gyfer cyflogi a rheoli staff; ac ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol Aelodau a mynediad at gymorth ariannol.

- Bydd angen sicrhau bod canllawiau clir ar gael i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr ynghylch sut i weithredu trefniant rhannu swydd, a bod ymgyrch addysg gyhoeddus yn cael ei darparu law yn llaw â'r broses o weithredu'r cam hwn. Yn ogystal, byddai angen i bleidiau ddiweddaru eu rheolau, eu gweithdrefnau a'u canllawiau mewnol.

Cwestiwn 3: Pe bai cwotâu deddfwriaethol o ran rhywedd ymgeiswyr yn cael eu cyflwyno ar gyfer etholiadau'r Senedd, beth fyddai'r goblygiadau ymarferol ac ariannol, neu unrhyw oblygiadau eraill, o ran eich dull o ddethol ymgeiswyr neu'ch prosesau mewnol?

5. Roedd gan y pleidiau safbwyntiau cymysg ar gwotâu deddfwriaethol o ran rhywedd ymgeiswyr. Roedd rhai yn cefnogi'r syniad yn gyffredinol, roedd eraill yn ei wrthwynebu, a nododd rhai nad oeddent eto wedi cyrraedd safbwynt polisi cadarn. Roedd gan y pleidiau safbwyntiau cymysg hefyd ynghylch graddau ac effaith unrhyw oblygiadau ymarferol neu ariannol a fyddai'n deillio o'r cam hwn. Dyma rai o'r materion a godwyd gan y pleidiau gwleidyddol:

- Mae'n bosibl y byddai hyn yn cyfyngu ar allu pleidiau i ddethol ymgeiswyr yn ôl eu teilyngdod yn hytrach nag ar sail eu nodweddion amrywiaeth. Mae'n bosibl y byddai hefyd yn cyfyngu ar allu pleidiau i ddethol ymgeiswyr o grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli.

- Ar ba lefel y dylid pennu cwotâu o ran rhywedd ymgeiswyr. Awgrymodd rhai o'r pleidiau, er enghraifft, ei bod yn bosibl na fyddai sicrhau bod 50 y cant o'r ymgeiswyr ar restrau rhanbarthol yn fenywod, na chyflwyno trefniant eiledu ar gyfer y rhestrau hynny, yn ddigonol i wneud iawn am unrhyw anghydbwysedd ymhlith yr ymgeiswyr etholaethol. Nododd pleidiau eraill na fyddent yn cefnogi cwotâu a oedd yn pennu uchafswm ar gyfer y gyfran o ymgeiswyr benywaidd.

- P'un a fyddai cwotâu ar gyfer ymgeiswyr yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau, o ystyried y ffaith nad oes modd i system gwotâu warantu cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith Aelodau etholedig na roi ystyriaeth i'r lefelau amrywiol o gefnogaeth etholiadol sydd gan bleidiau ledled Cymru.

- P'un a yw adran 104 o *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* (sy'n caniatáu i bleidiau gymryd rhai camau cadarnhaol mewn perthynas â dethol ymgeiswyr) yn ddigon hyblyg i ganiatáu i bleidiau sicrhau bod eu prosesau ar gyfer dethol ymgeiswyr yn cydymffurfio â chwotâu.

- Yr angen i sicrhau bod unrhyw ofynion deddfwriaethol yn cael eu hadlewyrchu yn y modd y mae eu rheolau sefydlog a'u gweithdrefnau mewnol yn cael eu diweddaru, a bod y gwaith hwnnw'n cael ei wneud yn ddigon cynnar cyn cyfnodau etholiadol er mwyn sicrhau bod trefniadau newydd ar waith cyn i'r broses ymgeisio ar gyfer darpar ymgeiswyr ddechrau. Nododd rhai o'r pleidiau fod y dasg o ddethol ymgeiswyr wedi'i datganoli i ganghennau lleol y pleidiau ar hyn o bryd, gan awgrymu y gallai'r cam o sicrhau bod prosesau dethol yn cydymffurfio â chwotâu arwain at ganoli mwy o brosesau o fewn y pleidiau.

- P'un a fyddai pleidiau llai yn gallu denu nifer ddigonol o ymgeiswyr i'w galluogi i gydymffurfio â chwotâu heb gyfyngu ar nifer y seddi y byddai modd iddynt gystadlu amdanynt.

Cwestiwn 4: Pe bai'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol yng Nghymru gasglu data ar amrywiaeth ymgeiswyr, cefnogi ymgeiswyr sy'n sefyll ar sail rhannu swydd a datblygu rhestrau ymgeiswyr sy'n gytbwys o ran rhyw, pa gefnogaeth ychwanegol fyddai ei hangen ar eich plaid?

6. Nododd y pleidiau fod unrhyw oblygiadau ymarferol ac ariannol posibl yn dibynnu ar y gofynion a gaiff eu cyflwyno. Nododd rhai o'r pleidiau y byddai eu gweithdrefnau a'u trefniadau cyfredol yn ddigonol i'w galluogi i addasu i unrhyw

fesurau amrywiaeth, a hynny heb arwain at unrhyw oblygiadau ymarferol neu ariannol sylweddol na'r angen am unrhyw gymorth ychwanegol. Roedd pleidiau eraill yn teimlo y dylai cymorth ariannol ychwanegol fod ar gael i bleidiau gwleidyddol at ddibenion annog pobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i gymryd rhan yn y broses wleidyddol, yn enwedig pe bai gofyn iddynt roi ar waith mesurau nad ydynt yn cytuno â hwy.